

Meddalwedd Cynllunio Gofal ar gyfer Gofal Cymdeithasol

Crynodeb Gweithredol



Mae meddalwedd cynllunio gofal yn offer digidol sydd wedi'u cynllunio i symleiddio a gwella'r ddarpariaeth gofal mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Maent yn galluogi sefydliadau gofal i asesu anghenion defnyddwyr, i greu a rheoli cynlluniau gofal, gosod nodau, a mynd ati i gynnwys unigolion yn y gwaith o gynllunio ac adolygu eu gofal eu hunain. Gall y datrysiadau meddalwedd hyn hefyd gefnogi'r gwaith o gefnogi arsylwadau a chofnodion amser real sy'n gysylltiedig â chynlluniau gofal, gan roi darlun clir a chyson i dimau gofal o'r gofal sy'n cael ei ddarparu dros amser. Ar ben hynny, gallent gefnogi'r gwaith o reoli tasgau, sicrhau mynediad yn seiliedig ar rôl, rhannu gwybodaeth â systemau eraill ac adrodd i helpu darparwyr i reoli gwasanaethau, cynnal parhad gofal, a bodloni gofynion arolygu a rheoleiddio.

Mae sawl meddalwedd cynllunio gofal ar gael yn y DU, gan gynnwys rhai sydd wedi cael eu cymeradwyo i'w defnyddio gan GIG Lloegr. Yn ogystal â'r galluoedd craidd uchod, mae rhai datrysiadau'n ymgorffori nodweddion ychwanegol fel integreiddio â Chofnodion Gweinyddu Meddyginiaethau electronig neu alluoedd deallusrwydd artiffisial i helpu wrth wneud nodiadau a chofnodion.



Y datrysiadau meddalwedd sy'n cael eu hasesu yn yr adroddiad hwn yw:

- Access Care Planning
- Access Care and Clinical
- Birdie
- Care Control Systems
- Care Vision
- Meddalwedd Rheoli Gofal QCS
- Careberry
- CareLineLive
- Dom Portal by Decaura
- Fusion eCare Solutions Ltd
- Log My Care
- Nourish
- OneTouch
- PASS gan everyLIFE
- Person Centred Software
- Qwikify
- RoundSys
- Certa
- CareDocs
- StoriiCare
- OneCare Platform
- Eclipse gan Olm
- Cura Systems
- Leecare Platinum 6
- SOS Care Management
- TagCare

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi galluoedd pob meddalwedd cynllunio gofal, ac yn eu hasesu ar sail meini prawf gan Gofal Cymdeithasol Cymru: Gallu o ran y Gymraeg; Costau Trwyddedu; Ymarferoldeb; Galluoedd Deallusrwydd Artiffisial; Diogelwch Data; Sefydliadau Sydd Eisoes yn Defnyddio'r Feddalwedd; Rhyngweithredu; Pa Mor Aml Mae Angen Diweddaru'r Feddalwedd, A Chynnwys y Diweddariadau.

Eisiau gwybod mwy?

Anfonwch e-bost at helo@hwbgbcmru.com i gael yr adroddiad llawn, gan gael mynediad at fewnwelediadau, ystadegau a gwybodaeth ynglŷn â chynllunio gofal mewn gofal cymdeithasol.



Gwybodaeth am y Sector

Mae ein tîm yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am dueddiadau'r farchnad, anghenion cwsmeriaid a thirwedd ehangach y diwydiant. Mae hyn yn siapio strategaethau, yn nodi risgiau ac yn dod o hyd i gyfleoedd twf cyffrous. Mae sefydliadau comisiynu yn cynnwys busnesau bach a chanolig, byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru, a'r byd academiaidd.

Gwybodaeth am Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Rydyn ni'n gyrru'r gwaith o ddatblygu a defnyddio arloesedd gwyddorau bywyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn ni'n rhyngwyneb deinamig, sy'n cysylltu arloeswyr gwyddorau bywyd â phartneriaid ymchwil, cyfleoedd cyllido, defnyddwyr a thimau iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen i gefnogi llesiant, ac yn y pen draw, i greu twf, swyddi a ffyniant ledled Cymru.

Sut gallwn ni eich helpu chi

E-bostiwch helo@hwbgbcmru.com i gael gwybod sut gall ein cymorth ni helpu eich arloesedd i gyrraedd y rheng flaen.

hwbgbcmru.com



helo@hwbgbcmru.com



Ionawr 2026